

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Gweithdrefn Llên-ladrad

Dylid dilyn y weithdrefn hon pryd bynnag yr amheuir achos o lôn-ladrad.

Diffiniad

Llên-ladrad yw pan mae dysgwr yn defnyddio gwaith neu syniad unigolyn arall a'i gyflwyno fel ei waith gwreiddiol ei hun. Gall y gwaith fod yn waith ysgrifenedig, cerddoriaeth, rhaglen gyfrifiadurol, dawn, darlun, etc.

Gall ffynhonnell y gwaith hwnnw fod yn:

- Waith wedi'i gyhoeddi, e.e. cyfrol, cylchgrawn, drama, ffotograff, paentiad, cerddoriaeth, etc.
- Gwaith heb ei gyhoeddi, e.e. nodiadau'r athro, taflenni dosbarth, gwaith dysgwr arall (naill ai gyda chaniatâd neu hebdo) a deunydd o'r We.
- Gwaith a grëwyd gan ddeallusrwydd artiffisial (AI) - Mae deallusrwydd artiffisial yn cyfeirio at allu cyfrifiadurol digidol neu robot a reolir gan gyfrifiadurol i gyflawni tasgau sydd fel arfer yn cael eu cysylltu â bodau deallus, ac sy'n gallu cael ei ddefnyddio er mwyn datrys problemau. Mae technoleg AI ar gael i bawb, a gellir ei chyrchu'n rhwydd iawn drwy amrywiaeth o adnoddau rhad neu am ddim, a gellir eu defnyddio i ysgrifennu cynnwys yn seiliedig ar ddefnyddiwr yn mewnbynnu gwybodaeth a/neu gwestiynau sylfaenol. Mae angen i bolisiâu a gweithdrefnau gydnabod y gall defnyddio AI i gynhyrchu gwaith yn seiliedig ar fewnbynnau'r defnyddiwr, ac ni fydd yn defnyddio gwaith o ffynhonnell arall sy'n bodoli ar-lein. Felly mae hi'n anodd adnabod y math yma o lôn-ladrad drwy ddefnyddio gwiriwr llôn-ladrad confensiynol. Mae angen i'r Coleg gydnabod a gweithredu ar y wybodaeth hon wrth weithio i fynd i'r afael â charmarfer a llôn-ladrad.

Mae'n rhaid i ddysgwyr gyflwyno gwaith eu hunain yn unig ar gyfer asesiadau. Golyga hyn bod rhaid i'w gwaith terfynol bob amser fod yn eu geiriau hwy eu hunain, a hynny heb fod wedi aralleirio gwaith arall, megis adnodd AI. Hynny yw, mae'n rhaid i gynnwys eu gwaith adlewyrchu gwaith annibynnol y dysgwr. Disgwylir i ddysgwyr arddangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau eu hunain, yn unol â gofynion eu cymhwyster, fel yr amlinellir ym manyleb y cymhwyster. Mae hyn yn cynnwys arddangos eu perfformiad mewn

Rhif Adolygu	4
Dyddiad Adolygu Diwethaf	Mehefin 2023
Dyddiad Adolygu Nesaf	Mehefin 2025

perthynas â'r amcanion asesu ar gyfer y pwnc sy'n berthnasol i'r cwestiwn/cwestiynau neu unrhyw dasgau eraill sydd angen eu cyflawni.

Mae defnyddio gwaith rhywun arall mewn unrhyw un o'r ffyrdd hyn, heb roi cydnabyddiaeth iddo, yn llên-ladrata ac yn achos o gamymddygiad a chamarfer academaidd. Weithiau, mae achosion o llên-ladrata yn anfwriadol o ganlyniad i sgiliau ymchwil gwael a diffyg dealltwriaeth o gonfensiynau cyfeirio. Weithiau, caiff ei wneud yn fwriadol. Yn y naill achos neu'r llall, nid yw llên-ladrata yn dderbyniol a dylid mynd i'r afael ag ef.

Mae llên-ladrata'n digwydd ar un o ddwy ffurf yn bennaf:

- i) Dysgwyr yn camddefnyddio gwybodaeth o'r we neu ffynonellau eraill, lle maent yn 'copïo a gludo' testun o'r adnoddau hyn yn uniongyrchol i'w haseiniadau, heb gydnabod y ffynhonnell wreiddiol; a
- ii) Dysgwyr sy'n gweithio'n rhy agos gydag un neu fwy o unigolion i helpu i ddatrys a/neu ateb tasg neu gwestiwn a asesir, gan arwain at gynhyrchu ateb neu ddatrysiaid ar y cyd (boed yn fwriadol ai peidio) er mwyn cael mantais annheg dros eraill yn eu haseiniadau. Gelwir y math hwn o llên-ladrata yn gydgyllwynio.
- iii) Dysgwyr yn defnyddio gwaith wedi'i greu gan rywun arall h.y. cwmni, oddi ar y we neu gan ddysgwr arall.
- iv) Dysgwyr yn defnyddio AI er mwyn cynhyrchu gwaith mewn ymateb i fewnbynnau a chwestiynau. Mae unrhyw ddefnydd o AI sy'n golygu nad yw'r dysgwyr wedi arddangos eu cyrhaeddiad eu hunain yn annibynnol, yn debygol o'i ystyried fel camarfer os llofnodwyd datganiad o ddilysrwydd. Mae camddefnydd AI yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
 - Copïo neu aralleirio ymatebion cyflawn a gynhyrchiwyd gan AI
 - Defnyddio AI er mwyn cwblhau rhan o asesiad, fel nad yw'r gwaith bellach yn adlewyrchu gwaith, dadansoddiad, gwerthusiad neu gyfrifiadau personol y dysgwr.
 - Methu i gydnabod defnydd o adnoddau AI pan ddefnyddiant fel ffynhonnell gwybodaeth.
 - Cydnabyddiaeth wael neu anghyflawn o ddefnydd adnoddau AI.
 - Cyflwyno gwaith sydd yn bwrpasol yn cynnwys cyfeiriadau neu lyfryddiaeth anghyflawn neu gamarweiniol.

Bydd rhaid i ddysgwyr lofnodi datganiad o ddilysrwydd wrth gyflwyno pob darn o waith, yn datgan mai eu gwaith nhw yn unig sy'n cael ei gyflwyno.

Rhif Adolygu	4
Dyddiad Adolygu Diwethaf	Mehefin 2023
Dyddiad Adolygu Nesaf	Mehefin 2025

Adnabod Llên-ladrata

Turnitin

Er mwyn gwirio bod dysgwyr yn gweithio mewn modd teg ac academiaidd briodol, mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn defnyddio meddalwedd cymharu testun er mwyn canfod achosion posibl o lôn-ladrata mewn gwaith mae dysgwyr AU a Mynediad yn ei gyflwyno. Y feddalwedd hon yw:

- Turnitin, sy'n cynnal archwiliad sy'n cyfateb i chwiliad ar y rhyngwyd, yn chwilio am gymhariaeth rhwng y testun sydd wedi'i gynnwys mewn darn o waith a gyflwynwyd gan ddysgwr gyda phob math o wybodaeth ac adnoddau sydd ar gael i'r cyhoedd ar y rhyngwyd. Defnyddir Turnitin i chwilio am achosion o gopïo uniongyrchol, a/neu achosion o beidio â chyfeirio at wahanol fathau o ddeunyddiau ffynhonnell yn briodol. Gellir ei ddefnyddio hefyd i gymharu aseiniadau pob dysgwr â deunyddiau'r modiwl a chyfeiriadau eraill a ddarperir neu a ddefnyddir yn gyffredin. Cynhyrchir adroddiad 'gwreiddioldeb' ar gyfer pob aseiniad a gyflwynir i Turnitin, sy'n dangos canran y testun sy'n cyfateb i wefannau penodol.

Yn dibynnu ar y cwestiynau sy'n cael eu gofyn a fformat yr ateb a gyflwynwyd, disgwylir rhyw lefel o gymhariaeth rhwng sgriptiau a ffynonellau eraill. Er enghraifft, efallai eich bod wedi defnyddio gwybodaeth o safleoedd eraill a/neu bapurau gwyddonol fel dyfyniad uniongyrchol i gefnogi eich ateb neu i brofi pwynt penodol (gan sicrhau eich bod wedi cyfeirio at hyn yn y modd priodol a disgwyliedig). Yn yr un modd, mae'n debyg y byddwch yn defnyddio termau ac ymadroddion, y gellir eu disgrifio fel 'gwybodaeth gyffredin' o fewn eich maes pwnc penodol a'ch lefel astudiaeth, nad oes angen cyfeirio atynt, ond sy'n debygol o godi mewn fformat tebyg ar nifer o safleoedd ac atebion dysgwr eraill.

Bydd fîm y cwrs yn ystyried pob mater o'r fath wrth adolygu'r adroddiadau gan Turnitin a phenderfynu a yw'r dysgwr wedi llên-lladrata. Os oes unrhyw bryderon:

- gall fîm y cwrs benderfynu bod angen arweiniad neu gymorth pellach ar rai dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu academiaidd; neu
- gall fîm y cwrs benderfynu bod yr hyn y mae'r adroddiadau'n ei ddangos yn fwy difrifol, ac os felly, byddant yn cyfeirio'r mater at y Pennaeth Cynorthwyol, Ansawdd, Addysgu a Dysgu, i'w ystyried.

Ar gyfer pob lefel arall, mae staff yn wylidwrs o lôn-ladrata ac yn defnyddio peiriannau chwilio ar-lein er mwyn gwirio gwaith. Mae cymedroli ar draws timau cwrs hefyd yn adnabod achosion o lôn-ladrad.

Rhif Adolygu	4
Dyddiad Adolygu Diwethaf	Mehefin 2023
Dyddiad Adolygu Nesaf	Mehefin 2025

Yn fuan, bydd teclyn adnabod AI yn cael ei ychwanegu i Turnitin Originality (<https://www.turnitin.com/products/originality>). Mi fydd y teclyn hwn yn cynnwys adolygiad o waith y dysgwr gan AI, adolygiad o bortffolio tystiolaeth, ac yn ôl y deall, mi fydd hefyd yn nodi pa mor debygol yw'r defnydd o AI. Bydd posib defnyddio'r teclynnau hyn er mwyn gwirio gwaith dysgwyr a/neu ddatrys unrhyw bryderon yn ymwneud â dilysrwydd gwaith dysgwyr.

Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Mae'n debyg fod adnabod y camddefnydd o AI gan ddysgwyr yn gofyn yr un sgiliau a thechnegau goruchwyllo y mae eu hathrawon eisoes yn eu defnyddio er mwyn sicrhau bod gwaith dysgwyr yn waith sy'n perthyn iddynt hwy hunain yn unig. Mae hefyd rhai adnoddau y gellir eu defnyddio.

Cymharu gyda gwaith blaenorol

Wrth gyflawni adolygiad o ddarn o waith penodol er mwyn gwirio ei ddilysrwydd, gall fod yn ddefnyddiol cymharu'r gwaith gyda darn o waith blaenorol a grëwyd gan y dysgwr. Pan mae'r darn o waith yn un ysgrifenedig, gallwch gofnodi'r nodweddion canlynol:

- Sillafu ac atalnodi
- Defnydd o ramadeg
- Arddull a thôn yr ysgrifen
- Geirfa
- Cymhlethdod a chysondeb
- Lefel y gwaith a'r ddealltwriaeth yn gyffredinol
- Y dull cynhyrchu (h.y. p'un a ydyw wedi ei ysgrifennu â llaw neu wedi ei deipio)

Gall athrawon ystyried cymharu gwaith sydd newydd ei gyflwyno gyda darnau eraill o waith a gynhyrchiwyd gan y dysgwr yn y dosbarth neu dan oruchwyliaeth.

Dangosyddion posibl camddefnyddio AI

Os welwch y canlynol yng ngwaith dysgwyr, gall fod yn arwydd o gamddefnydd AI:

- Tuedd o ddefnyddio termau, sillafiadau, arian cyfred, neu gyfeiriadau diwylliannol Americanaidd eraill yn awtomatig.*
- Tuedd o ddefnyddio iaith neu eirfa sydd ddim o reidrwydd yn addas ar gyfer lefel y cymhwyster.*
- Diffyg dyfyniadau uniongyrchol a/neu gyfeiriadau, lle bod gofyn/disgwyl am hynny.~
- Pan fo'r gwaith yn cynnwys cyfeiriadau na ellir eu canfod na'u dilysu (mae rhai adnoddau AI yn creu cyfeiriadau ffug at lyfrau neu erthyglau gan awduron go iawn).
- Diffyg cyfeirio at ddigwyddiadau ar ôl dyddiad penodol (gan adlewyrchu pan grëwyd yr adnodd AI). Gall hyn fod yn amlwg iawn mewn rhai pynciau.

Rhif Adolygu	4
Dyddiad Adolygu Diwethaf	Mehefin 2023
Dyddiad Adolygu Nesaf	Mehefin 2025

- Defnydd anghyson o bersbectif person cyntaf a thrydydd person pan na fydd y dysgwr wedi addasu'r testun.
- Gwahaniaeth rhwng arddull ysgrifenedig y gwaith a gwaith blaenorol a gynhyrchwyd yn y dosbarth neu yn narnau eraill o waith sydd wedi'u cyflwyno eisoes.
- Amrywiaeth yn y math o iaith a ddefnyddir mewn darn o waith, pan fydd dysgwr wedi defnyddio darn mawr o waith a gynhyrchiwyd gan AI ac wedyn yn ei addasu.
- Diffyg graffiau/tablau data/cymhorthion gweledol pan fyddai disgwyl iddynt gael eu defnyddio.
- Diffyg gwybodaeth bynciol fanwl neu wybodaeth leol benodol.
- Cynnwys o natur gyffredinol yn hytrach na chynnwys sy'n berthnasol i'r dysgwr ei hun, neu i dasg neu senario arbenigol, os yw hynny'n ofynnol neu os disgwylir hynny.
- Pan fydd y dysgwr, drwy gamgymeriad, yn cynnwys rhybuddion neu amodau a gynhyrchir gan y dechnoleg AI sy'n amlygu gallu a therfynau'r AI, neu natur ddamcaniaethol ei ymatebion.
- Pan fydd dysgwyr yn cyflwyno gwaith wedi'i deipio, pan maent fel arfer yn dewis cyflwyno gwaith yn ysgrifenedig.
- Pan fydd defnydd anarferol o sawl dadl glo yn y gwaith, neu fod strwythur traethawd cyfan yn cael ei ailadrodd sawl gwaith o fewn un traethawd estynedig, gan y gall ddangos bod AI wedi cynhyrchu'r traethawd sawl gwaith er mwyn ychwanegu manylder, amrywiaeth, neu er mwyn gweithio o amgylch cyfyngiadau allbwn yr adnodd AI.
- Pan fydd y gwaith yn cynnwys casgliadau sy'n amherthnasol i'r ddadl, neu'n cyflwyno datganiadau anghywir yn hyderus o fewn gwaith sydd fel arall yn gwneud perffaiith synnwyr.
- Gwaith sydd wedi ei ysgrifennu mewn arddull hirwyntog neu sy'n gor-ddweud pethau, pan fo hynny'n anarferol yng ngwaith y dysgwr.

*Byddwch yn ymwybodol y gellir cyfarwyddo adnoddau AI i wneud defnydd o iaith/geirfa wahanol, neu i ysgrifennu mewn modd sy'n cyfleu lefel benodol o allu wrth gynhyrchu cynnwys.

~Fodd bynnag, mae rhai adnoddau AI yn cynhyrchu cyfeiriadau a dyfyniadau.

Teclynnau adnabod AI yn awtomatig

Mae modelau iaith eang megis sgwrsfotiau AI yn cynhyrchu cynnwys drwy 'ddyfalu' pa air sy'n debygol o ddod nesaf yn y gyfres. Golyga hyn bod cynnwys a gynhyrchir gan AI, yn wahanol i gynnwys a gynhyrchir gan bobl sy'n defnyddio amrywiaeth o eiriau wrth ysgrifennu, yn defnyddio'r cyfuniad mwyaf cyffredin o eiriau. Mae rhaglenni a gwasanaethau amrywiol ar gael sy'n gallu defnyddio'r gwahaniaeth hwn i ddadansoddi'n strategol cynnwys ysgrifenedig a phennu'r tebygrwydd bod darn o waith wedi ei gynhyrchu gan AI:

Rhif Adolygu	4
Dyddiad Adolygu Diwethaf	Mehefin 2023
Dyddiad Adolygu Nesaf	Mehefin 2025

OpenAI Classifier (<https://openai.com/blog/new-ai-classifier-for-indicating-ai-written-text>)

GPTZero (<https://gptzero.me/>)

The Giant Language Model Test Room (GLTR) (<http://gltr.io/dist/>)

Fodd bynnag, dylid nodi bod y teclynnau uchod yn seilio eu sgoriau ar debygolrwydd geiriau, ac o ganlyniad, gall gwaith a gynhyrchiwyd gan AI ond sydd wedi ei addasu gan y dysgwr gael sgoriau is. Gall ansawdd y teclynnau hyn amrywio, ond bydd y dechnoleg adnabod AI yn parhau i ddatblygu dros amser. Dylid defnyddio teclynnau adnabod AI fel rhan o ddull holistaidd sy'n ystyried dilysrwydd gwaith dysgwyr; dylid ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael wrth gyflawni adolygiad yn ymwneud â phryderon camarfer.

Diogelu Data

Wrth ddefnyddio'r systemau hyn, ni fydd Coleg Caerdydd a'r Fro yn cyflwyno unrhyw fanylion personol amdanoch chi, er ei bod yn debygol y bydd eich gwaith yn cynnwys eich rhif PI a gellir eich adnabod drwy hwnnw. Yn ogystal, ni fydd eich gwaith yn cael ei storio ar unrhyw system allanol ac felly ni fydd ar gael i unrhyw un y tu allan i Goleg Caerdydd a'r Fro.

Arfer Disgwyliedig

Er mwyn osgoi llên-ladrata:

- Dylai myfyrwyr ddilyn arfer dda wrth gyfeirio. Mae cyfeirio'n gywir yn ffordd o arddangos gonestrwydd academiaidd, ac mae'n allweddol ar gyfer cynnal uniondeb asesïadau. Bydd dysgwyr yn gallu ymgymryd â sesiynau Sgiliau Astudio sy'n mynd i'r afael â chyfeirio.
- Rhaid i unrhyw ddyfyniad o waith cyhoeddedig neu heb ei gyhoeddi gan bobl eraill gael ei nodi'n glir drwy ei roi mewn dyfynodau, a dylai dysgwyr nodi eu ffynonellau mor gywir a llawn â phosibl.
- Dylai cyfres o ddyfyniadau byrion o sawl ffynhonnell wahanol gael eu nodi felly'n glir, neu bydd yn gyfystyr â llên-ladrata yn yr un modd ag y mae un dyfyniad hir heb ei gydnabod o un ffynhonnell.
- Os bydd dysgwr yn crynhoi syniadau, barnau, ffigyrau, meddalwedd neu ddiagramau unigolyn arall, rhaid cyfeirio at yr unigolyn hwnnw yn y testun a rhaid cynnwys y gwaith y cyfeirir ato yn y llyfryddiaeth.

Er mwyn osgoi llên-ladrata wrth ddefnyddio AI:

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.

Inspirational. Inclusive. Influential.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Rhif Adolygu	4
Dyddiad Adolygu Diwethaf	Mehefin 2023
Dyddiad Adolygu Nesaf	Mehefin 2025

- Os bydd dysgwr yn defnyddio adnodd AI sy'n darparu manylion am y ffynonellau a ddefnyddir i gynhyrchu cynnwys, dylai'r dysgwr wirio'r ffynonellau hyn a chyfeirio atynt yn y ffordd arferol.
- Pan na fydd yr adnodd AI yn darparu'r fath fanylion, dylai'r dysgwr sicrhau eu bod yn gwirio'r cynnwys a gynhyrchiwyd gan yr AI, yn annibynnol, gan gyfeirio at y ffynonellau a ddefnyddiwyd.
- Yn ychwanegol, pan fydd dysgwr yn defnyddio AI, dylai gydnabod ei ddefnydd a dangos yn glir sut cafodd ei ddefnyddio. Mae hyn yn galluogi athrawon ac aseswyr i gyflawni adolygiad ynghylch y defnydd o AI, gan ystyried a oedd yn addas yng nghydstun yr asesiad penodol hwnnw. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried nad yw cynnwys a gynhyrchiwyd gan AI yn destun i'r un lefel o archwiliad academiaidd mewn cymhariaeth â ffynonellau cyhoeddedig eraill.
- Pan fydd adnoddau AI wedi eu defnyddio fel ffynonellau gwybodaeth, dylai'r dysgwr eu cydnabod drwy ddarparu enw'r adnodd AI a ddefnyddiwyd, ac arddangos y dyddiad pan gafodd y cynnwys ei gynhyrchu. Er enghraifft: ChatGPT 3.5 (<https://openai.com/blog/chatgpt/>), 25/01/2023. Mae'n rhaid i'r dysgwr gadw copi o'r cwestiwn/cwestiynau a ofynnwyd a'r cynnwys a gynhyrchiwyd gan gyfrifiadur mewn fformat na ellir ei addasu (megis sgrinlun), yn ogystal â disgrifiad byr o sut ddefnyddiwyd yr AI, er mwyn cyfeirio a dilysu. Mae'n rhaid i hyn gael ei gyflwyno gyda'r gwaith er mwyn i'r athro/aseswr allu cyflawni adolygiad o'r gwaith, y cynnwys a gynhyrchir gan AI, a sut gafodd yr AI ei ddefnyddio. Pan na chaiff hyn ei gyflwyno gyda'r gwaith, ac mae'r athro/aseswr yn amau bod adnodd AI wedi ei ddefnyddio, bydd rhaid iddo weithredu yn unol â pholisi camarfer y ganolfan er mwyn sicrhau bod y gwaith a gyflwynwyd yn perthyn i'r dysgwr ei hun.

Ymdrin ag amheuaeth o lôn-ladrata lle na ellir adnabod y ffynhonnell

O bryd i'w gilydd, gall marciwr wynebu darn o waith yr amheuir ei fod wedi'i lôn-ladrata'n sylweddol, ond na ellir adnabod y ffynhonnell. Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd amheuaeth bod rhywun arall wedi ysgrifennu'r traethawd.

Y llwybr a argymhellir yw y dylid rhoi rhybudd i'r dysgwr y gofynnir cwestiynau academiaidd iddo ynghylch y gwaith a gyflwynwyd.

Rhif Adolygu	4
Dyddiad Adolygu Diwethaf	Mehefin 2023
Dyddiad Adolygu Nesaf	Mehefin 2025

Dylid paratoi'r cwestiynau ymlaen llaw a dylid cofnodi'r atebion i'r cwestiynau yn ysgrifenedig. Gall yr atebion hyn ddarparu tystiolaeth syml nad yw'r dysgwr wedi ysgrifennu'r gwaith dan sylw drwy'r anallu i ateb cwestiynau ar sylwedd y gwaith.

Rheoli Amheuaeth o Llên-ladrad

Gwaith a Gyflwynir ar gyfer Asesiadau Ffurfiol

Ar gyfer gwaith a gyflwynir ar gyfer asesiadau ffurfiol sy'n rhan o'r cymhwyster ac yn gysylltiedig ag ennill ardystiad, mae'r rheolau canlynol yn berthnasol:

Os **nad** yw'r dysgwr wedi llofnodi datganiad o ddilysrwydd, mae posib ymdrin â'r mater yn unol â'r **weithdrefn llên-ladrata**, ac ni fydd gofyn i'r Coleg adrodd y digwyddiad i'r sefydliad dyfarnu priodol.

Os caiff llên-ladrad ei ganfod neu ei amau gan y ganolfan, a bod y dysgwr wedi llofnodi datganiad o ddilysrwydd, yna bydd rhaid adrodd y digwyddiad i'r sefydliad dyfarnu priodol fel achos o **gamarfer**.

Cam 1

Dylai pwy bynnag sy'n amau bod dysgwr wedi cyflawni gweithred o llên-ladrata gysylltu â'r Pennaeth Adran perthnasol.

Yna, bydd Pennaeth yr Adran yn cynnal cyfweiliad cychwynnol gyda'r dysgwr.

Os yw'r dysgwr yn honni nad yw wedi cymryd rhan mewn gweithred o llên-ladrata, yna ar y cyd â'i athro/athrawes, efallai y bydd angen y canlynol ar Bennaeth yr Adran:

- Y dysgwr i gymryd rhan mewn cwestiynau llafar ar y gwaith lle amheuir bod llên-ladrata.
- Gwaith y dysgwr yn cael ei gyflwyno i adnodd canfod llên-ladrad electronig a weinyddir gan Bennaeth yr Adran.
- Arall fel yr awgrymwyd gan y corff dyfarnu.

Cam 2

Os yw Pennaeth yr Adran, o ganlyniad i ymchwiliad, yn fodlon bod y dysgwr, yn ôl y tebygolrwydd, wedi cyflawni gweithred o llên-ladrata, bydd y Pennaeth Ansawdd/Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd yn ystyried a yw'r llên-ladrad yn weithred fach, ganolradd neu fawr, ac yn cymhwyso cosb briodol.

Rhif Adolygu	4
Dyddiad Adolygu Diwethaf	Mehefin 2023
Dyddiad Adolygu Nesaf	Mehefin 2025

Bydd y weithdrefn hon yn cysylltu â'r weithdrefn Rheoli Perthnasoedd Dysgwyr. Bydd unrhyw gosbau gan y corff dyfarnu yn disodli'r rhai a amlinellir isod.

Canlyniadau Posibl

Gall Pennaeth yr Adran ymdrin â **mân weithredoedd o lôn-ladrata** ac ystyrir iddynt fod yn:

- Gyfeirio blêr.
- Cymysgu cyfeiriadau.
- Newid ychydig eiriau mewn darn o waith wedi'i gopïo, a'i gyflwyno fel gwaith gwreiddiol.

Llên-ladrata	Cosb
Nid yw swm y llên-ladrata yn fwy na 10% o gyfanswm yr aseiniad:	Trafodaeth gyda Phennaeth yr Adran, tiwtor y cwrs a/neu diwtor a dysgwr. Mae dysgwyr yn ailgyflwyno gwaith wedi ei lôn-ladrata am farciau llawn ac ni chaiff cofnod ffurfiol ei gadw. Dylid cofnodi hyn fel Hysbysiad o Bryder
Mae'r dysgwr wedi cyflawni gweithred(oedd) blaenorol o lôn-ladrata, neu mae'r llên-ladrata yn fwy na 10% o gyfanswm yr aseiniad.	Trafodaeth gyda Phennaeth yr Adran, tiwtor y cwrs a/neu diwtor a dysgwr. Dysgwr yn ailgyflwyno gwaith wedi ei lôn-ladrata am farciau llawn a chaiff cofnod ffurfiol ei gadw. NEU Ailgyflwyno gwaith ar gyfer marciau llawn gan ddefnyddio naill ai tasg wahanol neu waith newydd. NEU Ail-farcio'r gwaith llên-ladrata gwreiddiol gyda'r adran a oedd wedi'i lôn-ladrata wedi'i dileu a'r marciau yn adlewyrchu'r gwaith sy'n weddill. Dylid cofnodi hyn fel Rhybudd Ymddygiad Cyntaf
Mae'r dysgwr wedi cyflawni nifer o droseddau llên-ladrata yn y gorffennol dros gyfnod ei gwrs astudio.	Ailgyflwyno gwaith newydd am farc is. NEU Ailgyflwyno gwaith newydd ar gyfer gradd llwyddo yn unig. NEU

Rhif Adolygu	4
Dyddiad Adolygu Diwethaf	Mehefin 2023
Dyddiad Adolygu Nesaf	Mehefin 2025

	Gradd sero/methu ar gyfer y darn o waith heb ailgyflwyno. Dylid cofnodi hyn fel Rhybudd Ymddygiad Cyntaf.
--	---

Er y gellir disgrifio'r troseddau hyn fel rhai mân, os oes gan aseiniad ganran sylweddol o'r math hwn o lôn-ladrata, yna dylai'r gosb a roddir i'r dysgwr adlewyrchu hyn.

Ymdrinnir ag **achosion canolradd o lôn-ladrata** gan y Pennaeth Adran, ac ystyrir iddynt fod yn:

- Ddau ddysgwr ar yr un cwrs yn copïo oddi wrth ei gilydd.
- Dysgwr yn copïo gan ddysgwr blaenorol ar yr un cwrs.
- Copïo air-am-air o ffynhonnell/ffynonellau heb gydnabyddiaeth, h.y. copïo a gludo o'r We.
- Defnyddio AI, a chyfeirio at ei ddefnydd yn wael.

Yn yr un modd â mân weithredoedd o lôn-ladrata, gall y gosb a roddir i'r dysgwr yn y categori hwn amrywio gan ystyried canran y copïo dan sylw. Ni ddylai dysgwr sydd wedi copïo paragraff neu ddau gael yr un gosb â dysgwr sydd wedi copïo'r cyfan neu swm sylweddol o waith gan ddysgwr arall neu o'r We.

Llên-ladrata	Cosb
Nid yw cyfanswm y llên-ladrada yn fwy na 10% o gyfanswm yr aseiniad, neu mae'r cynghorydd llên-ladrada yn derbyn bod amgylchiadau lliniarol mewn perthynas â dysgwr penodol.	Trafodaeth gyda Phennaeth yr Adran, tiwtor y cwrs a/neu diwtor a'r dysgwr. Dysgwr yn ailgyflwyno gwaith wedi ei lôn-ladrata am farciau llawn a chaiff cofnod ffurfiol ei gadw. NEU Ailgyflwyno gwaith ar gyfer marciau llawn gan ddefnyddio naill ai tasg wahanol neu waith newydd. NEU Ail-farcio'r gwaith llên-ladrada gwreiddiol gyda'r adran a oedd wedi'i lôn-ladrata wedi'i dileu a'r marciau yn adlewyrchu'r gwaith sy'n weddill. Dylid cofnodi hyn fel Rhybudd Ymddygiad Cyntaf

Rhif Adolygu	4
Dyddiad Adolygu Diwethaf	Mehefin 2023
Dyddiad Adolygu Nesaf	Mehefin 2025

Mae'r dysgwr wedi cyflawni gweithred(oedd) blaenorol o lôn-ladrata, neu mae'r lôn-ladrad yn fwy na 10% o gyfanswm yr aseiniad.	Ailgyflwyno gwaith newydd am farc is. NEU Ailgyflwyno gwaith newydd ar gyfer gradd llwyddo yn unig. NEU Gradd sero/methu ar gyfer y darn o waith heb ailgyflwyno. Dylid cofnodi hyn fel Rhybudd Ymddygiad Terfynol.
Mae'r dysgwr wedi'i ganfod yn euog o nifer o droseddau lôn-ladrad blaenorol dros gyfnod ei gwrs astudio.	Methu'r uned gyfan (lle bo hynny'n berthnasol). NEU Methu'r rhaglen academiaidd ar gyfer y flwyddyn academiaidd honno.

Ymdrinnir ag **achosion sylweddol o lôn-ladrad** gan y Pennaeth Cynorthwyol, Ansawdd, Addysgu a Dysgu ac fe'u hystyrir yn:

- Ailgylchu aseiniadau o fanciau traethodau ar y We (p'un ai a delir amdanynt ai peidio)
- Prynu 'aseiniadau personol' o safle We neu gael eraill (gan gynnwys rhieni) i ysgrifennu'r aseiniad.
- 'Dwyn' aseiniad gan ddysgwr arall heb ganiatâd.
- Defnyddio AI i gynhyrchu'r gwaith, a diffyg cyfeirio at hynny.

Llôn-ladrata	Cosb
Mae'r Pennaeth Cynorthwyol, Ansawdd, Addysgu a Dysgu yn fodlon bod y dysgwr wedi sefydlu amgylchiadau lliniarol mewn perthynas â'r lôn-ladrad hwn.	Ailgyflwyno gwaith newydd am farc is. NEU Ailgyflwyno gwaith newydd ar gyfer gradd llwyddo yn unig. NEU Gradd sero/methu ar gyfer y darn o waith heb ailgyflwyno. Dylid cofnodi hyn fel Rhybudd Ymddygiad Terfynol.
Nid oes unrhyw amgylchiadau lliniarol.	Methu'r uned gyfan (lle bo hynny'n berthnasol). NEU Methu'r rhaglen academiaidd ar gyfer y flwyddyn academiaidd honno.

Rhif Adolygu	4
Dyddiad Adolygu Diwethaf	Mehefin 2023
Dyddiad Adolygu Nesaf	Mehefin 2025

	NEU Unigolyn yn cael ei dynnu oddi ar y rhaglen academaidd a/neu o'r coleg yn barhaol.
--	---

Noder: Gyda chosbau 1 a 2, bydd yn ofynnol i'r dysgwr ateb cwestiynau llafar os yw'r adran llên-lladrata yn cynnwys rhan allweddol o feini prawf asesu, er mwyn sicrhau bod ganddo ddealltwriaeth lawn.

Cam 3 - Apelio

Bydd apeliadau yn erbyn y penderfyniad a wneir gan Bennaeth yr Adran neu'r Pennaeth Cynorthwyol, Ansawdd, Addysgu a Dysgu, yn destun gweithdrefnau apelio arferol y coleg mewn perthynas â disgyblaeth dysgwyr.

Lliniaru

Amgylchiadau lliniarol yw amgylchiadau a gyflwynir gan y dysgwr a all fod wedi cyfrannu mewn rhyw ffordd at ymddygiad y dysgwr. Nid yw'r amgylchiadau hyn yn esgusodi'r dysgwr ond maent yn lleihau'r gosb ddisgyblu a bennir. Gall amgylchiadau lliniarol gynnwys pethau fel afiechyd, problemau teuluol, problemau gwaith etc. Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol a gall y rheolwr ymchwilio ystyried unrhyw ffactor y mae'n ei ystyried yn berthnasol mewn perthynas ag achos penodol.

Dyddiad cymeradwyo: Awst 1af 2017	Rheolwr sy'n Gyfrifol: Pennaeth Cynorthwyol, Ansawdd, Addysgu a Dysgu
Cymeradwywyd gan: Bwrdd Safonau Ansawdd	Arweinydd Gweithredol: Is-bennaeth, Taith y Dysgwyr ac Ansawdd
Dyddiad adolygu: 1 Mehefin 2025	Ar gael i Ddysgwyr: Ydy

Rhif Adolygu	4
Dyddiad Adolygu Diwethaf	Mehefin 2023
Dyddiad Adolygu Nesaf	Mehefin 2025